

Tir gwastad

“Oherwydd ef yw ein heddwch ni. Gwnaeth y ddau, yr Iddewon a’r Cenhedloedd, yn un, wedi chwalu trwy ei gnawd ei hun y canolfur o elyniaeth oedd yn eu gwahanu.” (adn. 14)

Beth am ddarllen Effesiaid 2:11–22 ac yna myfyrio

Awn ni’n awr y tu allan i’r efengylau i fyfyrion ar Paul yn dathlu’r hyn gyflawnodd Crist a’r tangnefedd ddaw drwy’r gwaed a dywalltwyd ar y groes. Llwyddodd y Rhufeiniaid i sicrhau heddwch yn yr hen fyd – y *pax Romana* – drwy rym arfau a chreulondeb. Roedden nhw’n trechu gwrthryfeloedd drwy dywallt gwaed a defnyddio trais. Roedd heddwch yr Ymerodraeth Rufeinig wedi’i sefydlu ar y croesau a godai. Ond mae’r tangnefedd a adawodd Iesu Grist ar ei ôl yn dangnefedd sy’n dod o groes. Er ei bod wedi’i chodi gan y Rhufeiniaid, croes Iesu oedd y fan lle cafodd y tangnefedd mwyaf yn y byd ei drosglwyddo – tangnefedd Duw.

Roedd marwolaeth ein Harglwydd yn weithred ddrud o gymodi. Cawsom ni, yn wrthryfelwyr, wedi ymbellhau oddi wrth Dduw, ein cymodi â Duw sanctaidd drwy farwolaeth ei Fab. Rydyn ni, y cenhedloedd, oedd wedi’n cau allan o’r breintiau ysbrydol a roddwyd i Israel, ac ‘yn estroniaid i’r cyfamodau a’u haddewid’ (adn. 12), wedi ein dwyn yn agos gan groes Crist, medd Paul.

Mewn byd o gasineb hiliol, rhaniadau ethnig, a rhyfel dosbarth, Crist ei hun ydy ein tangnefedd. Mae’r tir yn wastad wrth droed y groes. Yn Iesu mae pob wal annuwiol yn cael ei dinistrio, pob rhwystr balch yn cael ei falurio. Ble bynnag mae ei angau yn cael ei bregethu, ei dderbyn a’i gofleidio, yno mae tangnefedd yn torri allan. Wedi’u cymodi â Duw ac â’i gilydd, mae’r rhai sy’n derbyn ei dangnefedd yn rhannu mynediad cyfartal at Dduw eu Tad ac yn ymuno i’w foli o’r galon. Does dim malais na chasineb y naill at y llall, dim ymgeceru chwerau na hen elyniaeth, na ellir, yn y diwedd, eu meddiannu a’u niwtraleiddio drwy gariad croes Iesu. Os nad ydy hynny’n werth bloedd o Haleliwia, yna does dim.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eseia 57:14–21; Rhuf. 14:17–23; 2 Cor.13:11–14

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. I bwy mae Duw yn rhoi tangnefedd, yn ôl Eseia?
2. Sut mae Paul yn disgrifio teyrnas Dduw?

Gweddi

Fy Nhadau a’r Duw, sut alla i ddiolch digon i ti am ddioddef y fath boen ar y groes er mwyn i mi gael tangnefedd tragwyddol? Boed i bawb sy’n dod i gysylltiad â mi heddiw brofi’r tangnefedd sydd yn fy nghalon. Yn enw Iesu. Amen.